



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2009 Rhif 3377 (Cy.299)

2009 No. 3377 (W.299)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

Rheoliadau Ensymau Bwyd
(Cymru) 2009

The Food Enzymes (Wales)
Regulations 2009

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi yng Nghymru Rheoliad (EC) Rhif 1332/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch ensymau bwyd ac yn diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 83/417/EEC, Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1493/1999, Cyfarwyddeb 2000/13/EC, Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/112/EC a Rheoliad (EC) Rhif 258/97 (OJ Rhif L354, 31.12.2008, t.7), ("y Rheoliad EC").

1. These Regulations provide for the execution and enforcement in Wales of Regulation (EC) No 1332/2008 of the European Parliament and of the Council on food enzymes and amending Council Directive 83/417/EEC, Council Regulation (EC) No 1493/1999, Directive 2000/13/EC, Council Directive 2001/112/EC and Regulation (EC) No 258/97 (OJ No. L354, 31.12.2008, p.7), ("the EC Regulation").

2. Mae'r Rheoliadau'n darparu ei fod yn dramgwydd—

2. The Regulations provide that it is an offence—

- (a) unwaith y bydd y rhestr o ensymau bwyd a grybwyllir yn Erthygl 17 o'r Rheoliad EC wedi ei mabwysiadu, rhoi ar y farchnad neu ddefnyddio fel ensymau bwyd unrhyw rai nad ydynt ar y rhestr honno (*rheoliad 3(2)(a)*);
- (b) rhoi ar y farchnad ensym bwyd (neu unrhyw fwyd sy'n cynnwys ensym o'r fath) nad yw'n cydymffurfio â'r Rheoliad EC a'r mesurau sy'n ei weithredu (*rheoliad 3(2)(b)*);
- (c) peidio â labelu ensymau bwyd neu baratodau ensymau yn unol â'r gofynion perthnasol ar gyfer trafodion o fusnes i fusnes (*rheoliad 3(2)(c)*) neu ar gyfer gwerthiannau i ddefnyddwyr terfynol (*rheoliad 3(2)(ch)*); neu
- (ch) peidio â darparu gwybodaeth dechnegol benodol i'r Comisiwn mewn amgylchiadau penodol (*rheoliad 3(2)(d)*).

- (a) once the list of food enzymes mentioned in Article 17 of the EC Regulation has been adopted, to place on the market or use as food enzymes any that are not on that list (*regulation 3(2)(a)*);
- (b) to place on the market a food enzyme (or any food containing such an enzyme) that is not compliant with the EC Regulation and its implementing measures (*regulation 3(2)(b)*);
- (c) to fail to label food enzymes or enzyme preparations in accordance with the relevant requirements for business to business transactions (*regulation 3(2)(c)*) or for sales to the final consumer (*regulation 3(2)(d)*); or
- (d) to fail to provide certain technical information to the Commission in specified circumstances (*regulation 3(2)(e)*).

3. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd—

3. These Regulations also—

- (a) yn dynodi'r awdurdodau sydd dan ddyletswydd i orfodi'r Rheoliadau hyn a'r Rheoliad EC (*rheoliad 4*);
- (b) yn cymhwyso rhai o ddarpariaethau penodol Deddf Diogelwch Bwyd 1990 at ddiben y Rheoliadau hyn (*rheoliad 5*); ac

- (a) designate the authorities having the duty to enforce these Regulations and the EC Regulation (*regulation 4*);
- (b) apply certain specified provisions of the Food Safety Act 1990 for the purpose of these Regulations (*regulation 5*); and

- (c) yn darparu, pan nad yw bwyd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn a hynny'n golygu y byddai'n dramgwydd ei roi ar y farchnad, y caniateir ei drin fel pe na bai'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd, at ddibenion ymafael a dinistrio o dan adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (*rheoliad 6*).

4. Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau canlyniadol—

- (a) o ran Cymru yn unig, yn Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (*rheoliad 7*), Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau 1985 (*rheoliad 8*) a Rheoliadau Bwydydd Newydd a Chynhwysion Bwyd Newydd 1997 (*rheoliad 10*); a
- (b) yn Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003 (*rheoliad 9*).

5. Gwnaed asesiad effaith rheoleiddiol llawn mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, ac y mae ar gael gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, 11 Llawr, Ty Southgate, Caerdydd CF10 1EW.

- (c) provide that where food does not comply with these Regulations such that it would be an offence to place it on the market, it may be treated as failing to comply with food safety requirements for the purposes of seizure and destruction under section 9 of the Food Safety Act 1990 (*regulation 6*).

4. The Regulations make consequential amendments—

- (a) in relation to Wales, to the Food Labelling Regulations 1996 (*regulation 7*), the Caseins and Caseinates Regulations 1985 (*regulation 8*) and the Novel Foods and Novel Food Ingredients Regulations 1997 (*regulation 10*); and
- (b) to the Fruit Juices and Fruit Nectars (Wales) Regulations 2003 (*regulation 9*).

5. A full regulatory impact assessment has been undertaken in respect of these Regulations and is available from the Food Standards Agency, 11 Floor Southgate House, Cardiff, CF10 1EW.

2009 Rhif 3377 (Cy.299)

BWYD, CYMRU

**Rheoliadau Ensymau Bwyd
(Cymru) 2009**

Gwnaed 21 Rhagfyr 2009
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 23 Rhagfyr 2009
Yn dod i rym 20 Ionawr 2010

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(a), (e) ac (f), 17(2), 26(1) a (3), a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, rhoesant sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd (2), ymgynghorwyd yn agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ensymau Bwyd (Cymru) 2009, a deuant i rym ar 20 Ionawr 2010.

(2) Maent yn gymwys o ran Cymru.

(1) 1990 p.16. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 i Weiniogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) ac Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(2) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad yn ôl Penderfyniad y Cyngor 1999/468 mewn perthynas â'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasu'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu – Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

2009 No. 3377 (W.299)

FOOD, WALES

**The Food Enzymes (Wales)
Regulations 2009**

Made 21 December 2009
*Laid before the National
Assembly for Wales* 23 December 2009
Coming into force 20 January 2010

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 16(1)(a), (e) and (f), 17(2), 26(1) and (3), and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1).

In accordance with section 48(4A) of that Act, they have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(2), there has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations.

Title, application and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Food Enzymes (Wales) Regulations 2009 and they come into force on 20 January 2010.

(2) They apply in relation to Wales.

(1) 1990 c.16. Functions of the Secretary of State under the Food Safety Act 1990 are conferred on the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of and Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(2) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended by Commission Regulation (EC) No 596/2009 of the European Parliament and of the Council adapting a number of instruments subject to the procedure referred to in Article 251 of the Treaty to Council Decision 1999/468 with regard to the regulatory procedure with scrutiny: Adaptation to the regulatory procedure with scrutiny – Part Four (OJ No. L188, 18.7.2009, p.14).

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

Ystyr “awdurdod bwyd” (“*food authority*”) yw'r ystyr a roddir iddo gan adran 5(1A) o'r Ddeddf;

ystyr “awdurdod iechyd porthladd” (“*port health authority*”), mewn perthynas ag unrhyw ranbarth iechyd porthladd a sefydlir drwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yw awdurdod iechyd porthladd a sefydlir ar gyfer y rhanbarth hwnnw drwy orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf honno;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990; a

ystyr “y Rheoliad EC” (“*the EC Regulation*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 1332/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud ag ensymau bwyd ac yn diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 83/417/EEC, Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1493/1999, Cyfarwyddeb 2000/13/EC, Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/112/EC a Rheoliad (EC) Rhif 258/97(2).

(2) Mae i unrhyw ymadrodd arall a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn, ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg sy'n cyfateb iddo yn y Rheoliad EC, yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag y sydd i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliad EC.

(3) Oni nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl â Rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Rheoliad EC.

Tramgyddau, cosbau a darpariaethau arbed

3.—(1) Mae person sy'n torri neu'n peidio â chydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliad EC a bennir ym mharagraff (2), fel y'u darllenir ar y cyd â'r trefniadau trosiannol a gynhwysir yn Erthygl 18 ac Erthygl 24, yn euog o dramgydd.

(2) Y darpariaethau a grybwyllir ym mharagraff (1) yw—

- (a) Erthygl 4 (cyfyngu ar osod ar y farchnad a defnyddio ensymau bwyd nad ydynt ar y rhestr y darperir ar ei chyfer yn Erthygl 17);
- (b) Erthygl 5 (gwahardd rhoi ar y farchnad ensymau bwyd nad ydynt yn cydymffurfio, neu fwydydd sy'n cynnwys ensymau o'r fath);
- (c) Erthygl 10(1) (gofynion o ran labelu ensymau bwyd a pharatoadau nas bwriedir ar gyfer eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol);
- (ch) Erthygl 12(1) (gofynion o ran labelu ensymau bwyd a pharatoadau a fwriedir ar gyfer eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol); a
- (d) Erthygl 14(1) a (2) (gofyniad i ddarparu gwybodaeth benodedig i'r Comisiwn).

(1) 1984 p.22

(2) OJ Rhif L.354, 31.12.2008, t.7.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Food Safety Act 1990;

“the EC Regulation” (“*y Rheoliad EC*”) means Regulation (EC) No 1332/2008 of the European Parliament and of the Council on food enzymes and amending Council Directive 83/417/EEC, Council Regulation (EC) No 1493/1999, Directive 2000/13/EC, Council Directive 2001/112/EC and Regulation (EC) No 258/97(1);

“food authority” (“*awdurdod bwyd*”) has the meaning that it bears by virtue of section 5(1A) of the Act; and

“port health authority” (“*awdurdod iechyd porthladd*”) means in relation to any port health district constituted by order under section 2(3) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(2), a port health authority for that district constituted by order under section 2(4) of that Act.

(2) Any other expression used in these Regulations and in the EC Regulation has the same meaning in these Regulations as it bears in the EC Regulation.

(3) Unless indicated otherwise, any reference to a numbered Article is a reference to the Article so numbered in the EC Regulation.

Offences, penalties and savings

3.—(1) A person who contravenes or fails to comply with any of the provisions of the EC Regulation specified in paragraph (2) as read with the transitional arrangements contained in Article 18 and Article 24 is guilty of an offence.

(2) The provisions mentioned in paragraph (1) are—

- (a) Article 4 (restriction on placing on the market and use of food enzymes not on the list provided for in Article 17);
- (b) Article 5 (prohibition on placing on the market of non-compliant food enzymes or foods containing such enzymes);
- (c) Article 10(1) (requirements for labelling of food enzymes and preparations not intended for sale to the final consumer);
- (d) Article 12(1) (requirements for labelling of food enzymes and preparations intended for sale to the final consumer); and
- (e) Article 14(1) and (2) (requirement to provide specified information to the Commission).

(1) OJ No. L.354, 31.12.2008, p.7.

(2) 1984 c.22.

(3) Mae unrhyw un a geir yn euog o dramgwydd o dan baragraff (1) yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Gorfodi ac awdurdodau cymwys

4. Mae gweithredu a gorfodi'r rheoliadau hyn a'r Rheoliad EC yn ddyletswydd ar bob awdurdod bwyd o fewn ei ardal a phob awdurdod iechyd porthladd o fewn ei ranbarth.

Cymhwyso amrywiol adrannau o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

5.—(1) Mae'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn, gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran ohoni i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn—

- (a) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);
- (b) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy), gyda'r addasiad bod—
 - (i) is-adrannau (2) i (4) yn gymwys mewn perthynas â thramgwydd o dan reoliad 3(1) fel y maent yn gymwys mewn perthynas â thramgwydd o dan adran 14 neu 15, a
 - (ii) yn is-adran (4) ystyrir bod y cyfeiriadau at "sale" yn cynnwys cyfeiriadau at "placing on the market";
- (c) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);
- (ch) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau), i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan baragraff (3)(b);
- (d) adran 35(2) a (3), i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan baragraff (3)(c);
- (dd) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol); ac
- (e) adran 36A (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd).

(2) Wrth gymhwyso adran 32 o'r Ddeddf (pwerau mynediad), at ddibenion y Rheoliadau hyn, rhaid dehongli'r cyfeiriad at y Ddeddf yn is-adran (1) fel pe bai'n cynnwys cyfeiriadau at y Rheoliad EC.

(3) Mae'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad at y Ddeddf yn y darpariaethau hynny i'w ddehongli fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad at y Rheoliad EC a'r Rheoliadau hyn—

- (a) adran 3 (rhagdybiaeth bod bwyd wedi ei fwriadu ar gyfer ei fwyta gan bobl) gyda'r addasiad yr ystyrir bod y cyfeiriadau at "sold" a "sale" yn cynnwys cyfeiriadau at "placed on the market" a "placing on the market", yn eu trefn;

(3) Anyone convicted of an offence under paragraph (1) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

Enforcement and competent authorities

4. It is the duty of each food authority within its area and each port health authority within its district to execute and enforce these Regulations and the EC Regulation.

Application of various sections of the Food Safety Act 1990

5.—(1) The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act or Part thereof is construed as a reference to these Regulations—

- (a) section 20 (offences due to fault of another person);
- (b) section 21 (defence of due diligence), with the modification that—
 - (i) subsections (2) to (4) apply in relation to an offence under regulation 3(1) as they apply in relation to an offence under section 14 or 15, and
 - (ii) in subsection (4) the references to "sale" are deemed to include references to "placing on the market";
- (c) section 30(8) (which relates to documentary evidence);
- (d) section 35(1) (punishment of offences), in so far as it relates to offences under section 33(1) as applied by paragraph (3)(b);
- (e) section 35(2) and (3), in so far as it relates to offences under section 33(2) as applied by paragraph (3)(c);
- (f) section 36 (offences by bodies corporate); and
- (g) section 36A (offences by Scottish partnerships).

(2) In the application of section 32 of the Act (powers of entry) for the purposes of these Regulations, the reference in subsection (1) to the Act is to be construed as including references to the EC Regulation.

(3) The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act is construed as including a reference to the EC Regulation and these Regulations—

- (a) section 3 (presumption that food is intended for human consumption) with the modification that the references to "sold" and "sale" are deemed to include references to "placed on the market" and "placing on the market" respectively;

- (b) adran 33(1) (rhwystro swyddogion);
- (c) adran 33(2), gyda'r addasiad yr ystyrir bod y cyfeiriad at “any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above” yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r fath a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (b); a
- (d) adran 44 (diogelu swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

(4) Mae adran 34 o'r Ddeddf (terfyn amser ar gyfer erlyniadau) yn gymwys i dramgwyddau o dan reoliad 3 fel y mae'n gymwys i dramgwyddau cosbadwy o dan adran 35(2) o'r Ddeddf.

Condemnio Bwyd

6. Pan fo dadansoddwr bwyd yn ardystio bod unrhyw fwyd yn fwyd y byddai'n dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn ei roi ar y farchnad, caniateir trin y bwyd hwnnw at ddibenion adran 9 o'r Ddeddf (adran y caniateir odani ymafael mewn bwyd a'i ddinistrio ar orchymyn ynad heddwch) fel pe na bai'r bwyd hwnnw yn cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.

Diwygio'r Rheoliadau Labelu Bwyd

7.—(1) Diwygir Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(1) yn unol â pharagraffau (2) i (5).

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

- (a) i ddilyn y diffiniad o “follow-on formula” mewnosoder y diffiniad canlynol—

““food enzyme” has the meaning that it bears in Regulation (EC) No 1332/2008 of the European Parliament and of the Council on food enzymes(2);”; a

- (b) yn y diffiniad o “ingredient”, ar ôl yr ymadrodd “any additive” mewnosoder yr ymadrodd “, any food enzyme”.

(3) Yn rheoliad 14 (enwau cynhwysion) ar ôl paragraff (9) mewnosoder y canlynol fel paragraff (9A)—

“(9A) A food enzyme other than one referred to in regulation 17(b) or (c) is identified by the appropriate category in Schedule 4 followed by the specific name of that enzyme.”.

(4) Yn rheoliad 17 (cynhwysion nad oes angen eu henwi)—

- (a) ym mharagraffau (b) ac (c), bob tro ar ôl yr ymadrodd “any additive” mewnosoder “or food enzyme”; a
- (b) ym mharagraff (d) ar ôl yr ymadrodd “an additive” mewnosoder “or food enzyme”.

(5) Yn y pennawd i Atodlen 4, yn lle'r gair “additives” rhodder “ingredients”.

(1) O.S. 1996/1499 fel y'i diwygiwyd.

(2) OJ Rhif L354, 31.12.2008, t.7.

- (b) section 33(1) (obstruction of officers);
- (c) section 33(2), with the modification that the reference to “any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above” is deemed to be a reference to any such requirement as is mentioned in that subsection as applied by sub-paragraph (b); and
- (d) section 44 (protection of officers acting in good faith).

(4) Section 34 of the Act (time limit for prosecutions) applies to offences under regulation 3 as it applies to offences punishable under section 35(2) of the Act.

Condemnation of Food

6. Where any food is certified by a food analyst as being food which it is an offence under these Regulations to place on the market, that food may be treated for the purposes of section 9 of the Act (under which a food may be seized and destroyed under an order of a justice of the peace) as failing to comply with food safety requirements.

Amendment of the Food Labelling Regulations

7.—(1) The Food Labelling Regulations 1996(1) are amended in accordance with paragraphs (2) to (5).

(2) In regulation 2(1) (interpretation)—

- (a) following the definition of “follow-on formula” insert the following definition—

““food enzyme” has the meaning that it bears in Regulation (EC) No 1332/2008 of the European Parliament and of the Council on food enzymes(2);”; and

- (b) in the definition of “ingredient”, after the expression “any additive” insert the expression “, any food enzyme”.

(3) In regulation 14 (names of ingredients) after paragraph (9) insert the following as paragraph (9A)—

“(9A) A food enzyme other than one referred to in regulation 17(b) or (c) is identified by the appropriate category in Schedule 4 followed by the specific name of that enzyme.”.

(4) In regulation 17 (ingredients which need not be named)—

- (a) in paragraphs (b) and (c) in each case after the expression “any additive” insert “or food enzyme”; and
- (b) in paragraph (d) after the expression “an additive” insert “or food enzyme”.

(5) In the heading to Schedule 4, for the word “additives” substitute “ingredients”.

(1) S.I. 1996/1499 as amended.

(2) OJ No. L354, 31.12.2008, p.7.

Diwygio Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau 1985

8. Yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau 1985(1), yng ngholofn 2 o Ran II (cyfryngau cynorthwyol technolegol a meithriniadau bacteriol) ar ôl yr ymadroddion “rennet” ac “other milk-coagulating enzymes” ychwaneger bob tro yr ymadrodd “meeting the requirements of Regulation (EC) No 1332/2008 of the European Parliament and of the Council on food enzymes”.

Diwygio Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003

9. Yn Atodlen 4 (triniaethau a sylweddau ychwanegol a ganiateir) i Reoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003(2), ar ôl yr ymadroddion “Ensymau pectolytig”, “Ensymau proteolytig” ac “Ensymau amylyolytig” ym mharagraffau 4, 5 a 6 yn eu trefn, ychwaneger bob tro yr ymadrodd “sy'n bodloni gofynion Rheoliad (EC) Rhif 1332/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ensymau bwyd”.

Diwygio Rheoliadau Bwydydd Newydd a Chynhwysion Bwyd Newydd 1997

10. Yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Bwydydd Newydd a Chynhwysion Bwyd Newydd 1997(3), yn lle'r diffiniad o “Regulation (EC) No 258/97” rhodder y diffiniad canlynol—

““Regulation (EC) No 258/97” means Regulation (EC) No 258/97 of the European Parliament and of the Council concerning novel foods and food ingredients(4) as last amended by Regulation (EC) No 1332/2008 of the European Parliament and of the Council on food enzymes; and”.

Amendment of the Caseins and Caseinates Regulations 1985

8. In the Schedule to the Caseins and Caseinates Regulations 1985(1), in column 2 of Part II (technological adjuvants and bacterial cultures) after the expressions “rennet” and “other milk-coagulating enzymes” in each case add the expression “meeting the requirements of Regulation (EC) No 1332/2008 of the European Parliament and of the Council on food enzymes”.

Amendment of the Fruit Juices and Fruit Nectars (Wales) Regulations 2003

9. In Schedule 4 (permitted treatments and additional substances) to the Fruit Juices and Fruit Nectars (Wales) Regulations 2003(2), after the expressions “Pectolytic enzymes”, “Proteolytic enzymes” and “Amylolytic enzymes” in paragraphs 4, 5 and 6 respectively in each case add the expression “meeting the requirements of Regulation (EC) No 1332/2008 of the European Parliament and of the Council on food enzymes”.

Amendment of the Novel Food and Novel Food Ingredients Regulations 1997

10. In regulation 2(1) (interpretation) of the Novel Foods and Novel Food Ingredients Regulations 1997(3), for the definition of “Regulation (EC) No 258/97” substitute the following definition—

““Regulation (EC) No 258/97” means Regulation (EC) No 258/97 of the European Parliament and of the Council concerning novel foods and food ingredients(4) as last amended by Regulation (EC) No 1332/2008 of the European Parliament and of the Council on food enzymes; and”.

Gwenda Thomas

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Deputy Minister for Social Services under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

21 Rhagfyr 2009

21 December 2009

(1) O.S. 1985/2026 fel y'i diwygiwyd.

(2) O.S. 2030/3041 (Cy.286).

(3) O.S. 1997/1335 fel y'i diwygiwyd.

(4) OJ Rhif L43, 14.2.1997, t.1, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau (EC) Rhif 1829/2003 (OJ Rhif L268, 18.10.2003, t.1), Rhif 1882/2003 (OJ Rhif L284, 31.10.2003, t.1) a Rhif 1332/2008 (OJ Rhif L354, 31.12.2008, t.7).

(1) S.I. 1985/2026 as amended.

(2) S.I. 2003/3041 (W.286).

(3) S.I. 1997/1335 as amended.

(4) OJ No. L43, 14.2.1997, p.1, as amended by Regulations (EC) No 1829/2003 (OJ No. L268, 18.10.2003, p.1), No 1882/2003 (OJ No. L284, 31.10.2003, p.1) and No 1332/2008 (OJ No. L354, 31.12.2008, p.7).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2009 Rhif 3377 (Cy.299)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau,
Mwynau a Sylweddau Eraill
(Cymru) 2007

©[®] Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2009 No. 3377 (W.299)

FOOD, WALES

The Food Enzymes (Wales)
Regulations 2009

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.